Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Senedd Cymru / Welsh Parliament
Y Pwyllgor Cyllid / Finance Committee
Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24 / Welsh Government Draft Budget 2023-24
WGDB_23-24 28
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru / Older People's Commissioner for Wales

# Pwyllgor Cyllid y Senedd:

# Galwad am wybodaeth am gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24

## Tachwedd 2022

### Cyflwyniad

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (CPHC) yn croesawu'r cyfle i ymateb i alwad Pwyllgor Cyllid y Senedd am wybodaeth ar gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24.

Hoffai'r Comisiynydd weld y meysydd a ganlyn yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau am gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24.

### Buddsoddiad parhaus mewn iechyd a gofal cymdeithasol

Ers dechrau pandemig Covid-19 nôl yn 2020, mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi bod yn siarad ac yn gwrando ar bobl hŷn, gofalwyr, mudiadau cymunedol, gwirfoddolwyr, a llawer mwy am effaith y pandemig ar eu bywydau, eu hiechyd a'u lles, a'u mynediad at a phrofiad o iechyd a gofal cymdeithasol. Mae pobl hŷn a'u teuluoedd wedi dweud wrth y Comisiynydd am effaith cael eu triniaeth a'u gofal wedi'u hatal oherwydd y pandemig, ac am osgoi cyrchu gwasanaethau.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
[redacted]

Er nad yw'r driniaeth a'r cymorth ar seibiant bellach oherwydd Covid-19, mae ôl-groniad sylweddol o alw o hyd. Mae'n debygol hefyd nad yw pobl hŷn y mae'r pandemig wedi effeithio ar eu hiechyd corfforol a meddyliol i gyd wedi dod ymlaen eto ar gyfer iechyd neu ofal cymdeithasol. Ar yr un pryd, mae rhestrau aros y GIG yng Nghymru wedi cyrraedd y lefelau uchaf erioed.[1] Mae'r effaith ar bobl hŷn gan fod gwasanaethau hanfodol yn cael eu gohirio neu ddim ar gael, yn ddramatig.

Pan gafodd gwasanaethau eu hatal yn ystod y pandemig, dywedodd person hŷn anabl nad oedd yn gallu cael mynediad at ffisiotherapi wrth Dîm Cyngor a Chymorth y Comisiynydd am "gau'r cyfleusterau a oeddent yn … fy ngalluogi i a llawer o bobl anabl eraill [i fod] yn annibynnol, [rydym] wedi dod yn ansymudol yn gorfforol, yn ogystal â'n lles meddwl [fe gawsom] ein hysbeilio o bopeth yr ydym i gyd wedi gweithio [amdano] a bu'n rhaid i ni frwydro i beidio dod yn Ddinasyddion Ail Ddosbarth. O bosib roedd gan lawer ohonom feddyliau am ddod â'n bywydau di-fywyd i ben er mwyn atal y boen mewn cymaint o ffyrdd".[2] Wrth i Gymru edrych tuag at ymadawiad rheoledig o'r pandemig, mae'n hanfodol cofio bod methu â chael mynediad at wasanaethau gofal iechyd mewn modd amserol yn dal i gael effaith ddifrifol ar ansawdd bywyd pobl hŷn.

Am y rheswm hwn, rhaid i gyllideb Llywodraeth Cymru barhau i gymryd camau i leihau amseroedd aros a chynyddu mynediad amserol at wasanaethau gofal iechyd, gan sicrhau nad yw pobl hŷn dan anfantais wrth flaenoriaethu triniaeth. Ochr yn ochr â hyn, mae angen buddsoddiad i gynnal mynediad at ofal iechyd mwy arferol fel apwyntiadau meddyg teulu a gwasanaethau sgrinio.

Mae buddsoddi mewn gofal cymdeithasol yr un mor bwysig â buddsoddi mewn gwasanaethau iechyd. Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan ofal cymdeithasol yn hanfodol i gefnogi annibyniaeth pobl hŷn a gallu gwneud y pethau sy'n bwysig wrth inni heneiddio. Rhaid i ofal cymdeithasol fod yn briodol, yn amserol ac yn hygyrch, ac yn gyson o ran y gwasanaethau a ddarperir, a'r meini prawf ar gyfer cael mynediad atynt. Dylai pobl hŷn fod yn ganolog i bob penderfyniad am y gofal cymdeithasol y maent yn ei dderbyn. Fodd bynnag, gwyddom fod mynediad at wahanol fathau o ofal cymdeithasol yn fwyfwy anodd a bod pwysau staffio mewn gofal cymdeithasol yn ychwanegu at y gofynion ar ofalwyr di-dâl, yn ogystal ag arwain at arosiadau annerbyniol am asesiadau gofal a gwasanaethau. Mae data o ansawdd da ar y materion hyn yn bwysig er mwyn deall y ffordd orau o wella'r sefyllfa.

---

[1] Gweler Newyddion y BBC (20 Hydref 2022): [NHS Wales waiting times: What the figures show - BBC News]

[2] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2022), Effaith pandemig Covid-19, a'i reolaeth, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, ar gael yn: https://olderpeople.wales/wp-content/uploads/2022/04/cy_Health-and-Social-Care-Committee-Covid-19-Response.pdf

Mae angen i gyllideb Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ddyrannu adnoddau digonol i fynd i'r afael â'r pwysau difrifol ym maes gofal cymdeithasol, boed hynny'n gynhwysedd mewn cartrefi gofal, darpariaeth gofal cartref a gwasanaethau ailalluogi, problem oedi wrth ryddhau o'r ysbyty neu heriau eraill. Mae'n hanfodol bod cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yn galluogi gwasanaethau gofal cymdeithasol i ddiwallu anghenion pobl hŷn, gan sicrhau bod hawliau'n cael eu cynnal a bod pawb yn gallu heneiddio'n dda. Mae angen i hyn gynnwys gweithredu ar atal a gwneud llawer mwy o gynnydd tuag at ddull ataliol yn hytrach na rheoli argyfwng. Roedd y naratif ar gyllideb ddrafft flaenorol Llywodraeth Cymru yn pwysleisio ei bod yn "blaenoriaethu cyllid ar gyfer ein GIG, gofal cymdeithasol ac awdurdodau lleol".[3] Mae angen i hyn hefyd fod yn wir am y flwyddyn i ddod pan fydd angen i gyllideb y dyfodol ddarparu buddsoddiad digonol mewn iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys cyllid ar gyfer atal a chymorth yn y gymuned.

### Gweithredu i liniaru tlodi ymhlith pobl hŷn

Mae bron i un o bob pump o bobl hŷn yng Nghymru yn byw mewn tlodi, ac mae incwm yn crebachu mewn termau real o wythnos i wythnos wrth i effeithiau chwyddiant barhau.[4] Un o'r ffyrdd y gall Llywodraeth Cymru helpu i leihau effaith tlodi heb wario llawer o'i hadnoddau ei hun yw cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar hawliau ariannol gan Lywodraeth y DU.

O ran Credyd Pensiwn yn unig, mae tua 80,000 o bobl yng Nghymru yn gymwys ond nid ydynt yn cael eu hawl. Mae hyn yn golygu bod dros £200M yn cael ei golli i Gymru a allai gynyddu incwm pobl hŷn, gan ddatgloi ystod o gymorth cysylltiedig, tra hefyd yn hybu pŵer gwario mewn cymunedau ledled Cymru.[5]

Er mwyn sicrhau bod mwy o'r cronfeydd hyn nad ydynt yn cael eu hawlio ar hyn o bryd yn cyrraedd pobl hŷn, dylai Llywodraeth Cymru ddyrannu adnoddau digonol yn y gyllideb ddrafft i gefnogi awdurdodau lleol a'r trydydd sector i dargedu pobl hŷn sy'n colli allan ar hyn o bryd yn effeithiol. Mae gwasanaethau cynghori yn elfen allweddol o'r cymorth hwn. Mae hwn yn fuddsoddiad mewn gwrthbwyso rhai o effeithiau niweidiol tlodi, gan gynnwys yr effaith negyddol ar iechyd corfforol a meddyliol a fyddai fel arall yn cael ei drin drwy gyllid Llywodraeth Cymru i wasanaethau'r GIG.

---

[3] Llywodraeth Cymru (2021), Cyllideb Ddrafft 2022-23, ar gael yn: Cyllideb Ddrafft 2022 i 2023 | LLYW.CYMRU

[4] StatsCymru (2021). Ar gael oddi wrth: Canran yr holl unigolion, plant, oedolion oedran gweithio a phensiynwyr sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol ar gyfer y DU, gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr rhwng 1994-95 i 1996-97 a 2017-18 i 2019-20 (cyfartaleddau 3 blynedd o blynyddoedd ariannol)

[5] Independent Age (2019), *Credit where it's due: Ending the £3.5 billion Pension Credit scandal*, p.13. Ar gael o: Credit where its due report_0.pdf (independentage.org)

Fodd bynnag, mae gwasanaethau cynghori ledled Cymru yn gweld pwysau cynyddol wrth i'r galw am help ynglŷn â'r argyfwng costau byw gynyddu. Mae asiantaethau sy'n darparu cymorth i unigolion i hawlio'r hyn sy'n ddyledus iddynt yn adrodd yn anecdotaidd am ôl-groniadau o 12-14 wythnos. Mewn perthynas â gwasanaethau cymorth ynghylch cyngor ar fudd-daliadau a threchu tlodi, nododd adroddiad diweddar gan Archwilio Cymru "yr anhawster i ddenu digon o dalent i ddarparu gwasanaethau sy'n aml yn heriol iawn. Nododd cyfran sylweddol o swyddogion y cyngor... broblem gynyddol o recriwtio a chadw staff hanfodol, o fewn eu sefydliad ond hefyd partneriaid trydydd sector allweddol. Tynnwyd sylw at faterion yn ymwneud â llwythi gwaith cynyddol, gostyngiadau mewn cynhwysedd, mwy o ddiffygio o waith rheng flaen yn ystod y pandemig, cyflogau llai cystadleuol ac effaith chwyddiant ar gyflogau fel risgiau mawr".[6] Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried pa gymorth y gall ei roi i awdurdodau lleol a'r trydydd sector ynghylch y mater hwn o recriwtio a chadw mewn gwasanaethau hanfodol o'r fath ac adlewyrchu hynny'n ddigonol yn y gyllideb ddrafft ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Yn fwy cyffredinol, mae angen cynnal y cyllid ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol a dylid ystyried mathau eraill o gymorth i bobl hŷn yn ystod yr argyfwng costau byw. Mae angen gwaith i sicrhau bod y Gronfa Cymorth Dewisol yn cyrraedd pobl hŷn i sicrhau bod pob rhan o gymdeithas yn elwa.

Dylai cyllidebau cyfathrebu ar gyfer cronfeydd cymorth Llywodraeth Cymru hefyd adlewyrchu'r ffaith y bydd angen negeseuon penodol a thargedu, er mwyn sicrhau bod pobl hŷn yn cydnabod bod ffynonellau cymorth neu gyllid o'r fath wedi'u bwriadu ar gyfer pobl hŷn a chartrefi. Mae hyn yn cynnwys cyfeirio ac amlygu pob gwasanaeth cynghori.

## Cefnogaeth i weithwyr hŷn

Mae gweithwyr hŷn yn hanfodol i economi Cymru, gan wneud cyfraniad sylweddol i'r economi. Mae ffigurau ar gyfer Rhagfyr 2021 i Chwefror 2022 yn dangos mai 69.3% yw lefel cyflogaeth ymhlith pobl 50-64 oed. Dyma'r trydydd isaf o holl wledydd a rhanbarthau'r DU.[7] Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2022, cyfradd cyflogaeth pobl dros 65 oed yng Nghymru oedd 9.4%.[8]

---

[6] Archwilio Cymru, Amser am Newid: Tlodi yng Nghymru (2022). Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru. Ar gael yn: https://audit.wales/sites/default/files/publications/Amser_am_Newid_Tlodi_Cymraeg.pdf t. 33.

[7] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022) X01 Y farchnad lafur ranbarthol: Amcangyfrifon cyflogaeth yn ôl oedran. Ar gael yn: https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/datasets/regionalemploymentbyagex01

[8] StatsCymru (2022), ar gael yn Cyflogaeth pobl yng Nghymru dros 16 oed yn ôl oedran a mesur (llyw.cymru)

O ran y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, mae pobl hŷn hefyd yn rhan gynyddol bwysig o'r gweithlu. Cynyddodd canran gweithlu'r GIG yn y grŵp oedran 55+ o 20% yn 2015 i 23% yn 2021.[9] Ym maes gofal cymdeithasol, mewn gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol a gwasanaethau a gomisiynir, mae 3-4% o'r staff dros 65 oed. Fodd bynnag, yng ngwasanaethau awdurdodau lleol, mae tua 25% o'r gweithlu gofal cymdeithasol rhwng 56 a 65 oed, ac ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir y ffigwr yw 15%.[10] Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gellir cadw gweithwyr hŷn yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, gan weithio gyda chyflogwyr fel y bo'n briodol. Mae angen i Gymru gadw staff mor brofiadol a galluog.

O ran cymorth i'r economi a busnes yn fwy cyffredinol yn dilyn y pandemig, maes allweddol i Lywodraeth Cymru fydd cynorthwyo gweithwyr hŷn i aros yn y gweithle neu mewn hunangyflogaeth a galluogi bod dewis gwirioneddol ynghylch os a phryd i ymddeol. Mae data diweddar y Farchnad Lafur wedi dangos cynnydd mewn segurdod economaidd gyda'r cynnydd yn bennaf mewn oedolion dros 50 oed. Ym mis Mai i fis Gorffennaf 2022 ym Mhrydain Fawr, roedd 386,096 yn fwy o oedolion economaidd segur rhwng 50 a 64 oed nag yn y cyfnod cyn-bandemig coronafeirws (COVID-19), sef Rhagfyr 2019 i Chwefror 2020.[11]

Fodd bynnag, mae ffyrdd o gadw a denu gweithwyr hŷn, gydag oriau gwaith hyblyg yn allweddol. Ymhlith oedolion 50 i 65 oed sydd wedi gadael eu swydd ers dechrau'r pandemig coronafeirws (COVID-19) ac a fyddai'n ystyried dychwelyd i'r gwaith (58%), y ffactorau pwysicaf wrth ddewis swydd â thâl oedd: oriau gwaith hyblyg (32%), cyflog da (23%), a gallu gweithio o gartref (12%). Oriau gwaith hyblyg oedd y ffactor unigol mwyaf wrth ddewis swydd â thâl a ddewiswyd gan bobl 60-65 oed – nododd dros draean o bobl yn y grŵp oedran hwn yr opsiwn yma.[12]

Drwy fuddsoddi mewn cynlluniau i alluogi gweithwyr hŷn i barhau neu ddychwelyd i gyflogaeth a herio arferion oedraniaethol sy'n rhwystro hyn, gallai Llywodraeth Cymru roi hwb sylweddol i'r economi. Mae'r Ganolfan Heneiddio'n Well yn cynnal nifer o brosiectau ar recriwtio da. Mae'r rhain yn cynnwys ystyriaethau o'r iaith a ddefnyddir mewn deunyddiau recriwtio.[13] Yn yr un modd, mae partneriaeth Age Cymru â Busnes yn y Gymuned Cymru yn cynnig amrywiaeth o gymorth i fusnesau a gweithwyr hŷn trwy weminarau adolygu canol

---

[9] Tueddiadau Gweithlu GIG Cymru (ar 31 Mawrth 2021)

[10]Addysg a Gwella Iechyd Cymru (2021), Tueddiadau Gweithlu GIG Cymru (ar 31 Mawrth 2021). Ar gael yn: Adroddiad y Gweithlu Gofal Cymdeithasol (2021)

[11] ONS (2022), Rhesymau dros weithwyr dros 50 oed yn gadael cyflogaeth ers dechrau'r pandemig coronafeirws: ton 2. Ar gael yn: Reasons for workers aged over 50 years leaving employment since the start of the coronavirus pandemic - Office for National Statistics

[12] ONS (2022), Rhesymau dros weithwyr dros 50 oed yn gadael cyflogaeth ers dechrau'r pandemig coronafeirws: ton 2. Ar gael yn: Reasons for workers aged over 50 years leaving employment since the start of the coronavirus pandemic - Office for National Statistics

[13] Centre for Ageing Better (2021): Good Recruitment for Older Workers (GROW) | Centre for Ageing Better (ageing-better.org.uk)

gyrfa rhad ac am ddim, Adolygiadau Busnes Cynhwysol o ran Oedran a Rhwydwaith Dysgu Cynhwysol o ran Oedran.[14]

Mae iechyd yn fater allweddol ymhlith gweithwyr hŷn. Ar gyfer pobl hŷn sydd eisiau gweithio ond nad ydynt yn gyflogedig, dywed 33% o bobl 65-74 oed a 54% o 75+ mai eu hoedran, a dywed 39% o bobl 65-74 oed mai salwch neu gyflwr hirdymor, neu anabledd yw'r rheswm pam na allant weithio.[15] Gallai cynyddu nifer y rolau ag oriau hyblyg wneud gwahaniaeth sylweddol i'r economi, gan ddenu a chadw pobl hŷn mewn gweithleoedd ledled Cymru.

Mae gweithwyr hŷn hefyd yn fwy tebygol o gael eu diswyddo, ac yn aml yn ei chael yn fwy anodd dod o hyd i waith ar ôl colli swydd neu gael eu gwneud yn ddi-waith, yn enwedig gan nad yw'r cymorth sydd ar gael i helpu i ddod o hyd i waith yn aml wedi'i deilwra'n ddigonol.[16] Mae 90% o bobl hŷn yn credu bod ganddynt sgiliau trosglwyddadwy i newid rolau neu ddiwydiant pe byddent yn cael cynnig hyfforddiant, ond dim ond 35% o'r cyflogwyr a holwyd a fyddai'n barod i logi a chynnig hyfforddiant i rywun dros 55 mewn diwydiant newydd.[17] Dim ond un maes yw cyflogaeth lle mae effaith negyddol rhagfarn ar sail oedran yn amlwg. Mae cyflogwyr a'r economi yn fwy cyffredinol yn colli allan ar sgiliau a chyfraniad gweithwyr hŷn. Yn rhy aml, mae hyn yn seiliedig ar stereoteipiau a mythau bod gweithwyr hŷn yn anhyblyg, yn llai arloesol neu nad ydynt yn deall technoleg newydd. I helpu i wrthweithio hyn, cynhyrchodd TUC Cymru becyn cymorth ar Gefnogi Gweithwyr Hŷn.[18] Mae'r pecyn cymorth yn cyflwyno achos cadarnhaol dros gadw gweithwyr hŷn a herio mythau oedraniaethol fel y rhai uchod. Cyhoeddodd 55/Redefined a Reed Talent Solutions ymchwil hefyd ym mis Tachwedd 2022 ar effaith rhagfarn ar sail oedran yn y gweithle.[19] Fel rhan o hyn, dywedodd un o bob pump o bobl dros 50 oed eu bod am i gyflogwyr gael strategaeth glir i fynd i'r afael â rhagfarn ar sail oedran yn y gweithle. Mae diwylliant sefydliadau hefyd yn chwarae rhan bwysig o ran a yw pobl hŷn yn teimlo bod croeso iddynt.

Mae'r categori 'anweithgarwch economaidd' yn cuddio cryn dipyn o weithgarwch sy'n hanfodol i'r economi a fyddai fel arall yn mynd heb ei wneud, neu y byddai angen ei ariannu. Mae pobl hŷn yn gwneud cyfraniad sylweddol yng Nghymru fel gwirfoddolwyr a gofalwyr di-dâl.

---

[14] Gweler Age Cymru ¦ Age at Work (ageuk.org.uk)

[15] Llywodraeth Cymru (2022) Arolwg Cenedlaethol Cymru Ebrill 2021 i Fawrth 2022 https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-dangosydd-canlyniadau

[16] Wilson, T et al. (2020) Getting back to work: Dealing with the labour market impacts of the Covid-19 recession. Institute for Employment Studies. Ar gael yn: https://www.employment-studies.co.uk/system/files/resources/files/541.1.pdf

[17] 55/Redefined (Awst 2021) Shut out, forced out and overlooked Ageism at work: Attitudes on employment over the age of 55. Ar gael yn: https://55redefined.co/press-releases/ageism-in-work-shut-out

[18] TUC Cymru, Cefnogi gweithwyr hŷn: Pecyn cymorth i undebwyr llafur. Ar gael yn: Cefnogi Gweithwyr Hŷn (TUC Cymru)

[19] 55/Redefined (2022), The Unretirement Uprising: The retirement rebellion that could save our workplaces. Ar gael yn: 55REDEFINED_Whitepaper_V12 (prismic-io.s3.amazonaws.com)

Mae angen cydnabod cyfraniad pobl hŷn mewn cyflogaeth, fel gofalwyr ac fel gwirfoddolwyr (weithiau'n cymryd rhan ym mhob un o'r tri). Mae angen i gyllideb Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ystyried sut i gefnogi pobl hŷn i gynnal y rolau hyn.

## Tystiolaeth a data

Mae strategaeth Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn nodi'n gywir bod "... angen tystiolaeth ddibynadwy drwy gydol y broses o ddatblygu polisi wrth gynllunio, yn ystod y broses weithredu ac wrth werthuso a oedd y polisi'n llwyddiannus a lle mae angen gwelliannau".[20] Mewn gormod o achosion, nid oes data dibynadwy o ansawdd da ar gael ar gyfer profiadau pobl hŷn yng Nghymru. Lle mae data ar gael ar gyfer pobl dros 60 neu 65 oed, yn aml mae unrhyw un dros yr oedran hwn yn cael ei gynnwys i bob golwg fel rhan o grŵp unffurf. Mae hyn yn cuddio nifer o wahaniaethau pwysig ac amrywiaeth o brofiadau.

Mae angen i gyllideb Llywodraeth Cymru gynnwys adnoddau i wella data ar brofiadau pobl hŷn, ac mae angen rhannu hyn yn fandiau oedran llawer llai er mwyn gallu craffu i weld a yw polisi'n cael yr effeithiau a fwriadwyd. Mae strategaeth yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd yn codi mater meintiau sampl bach, a bydd yn ceisio mynd i'r afael â hyn – dull y dylid ei ddefnyddio wrth gasglu data a dadansoddi gwybodaeth am bobl hŷn yng Nghymru. Heb fuddsoddi mewn casglu a dadansoddi data, mae risg na chaiff adnoddau eu defnyddio mor effeithiol â phosibl gan ei bod yn anodd asesu effaith polisi. Dylai'r ffocws hwn ar sicrhau data o ansawdd da, wedi'i ddadansoddi yn ôl bandiau oedran priodol, fod yn berthnasol i feysydd fel iechyd a gofal cymdeithasol, ond hefyd i unrhyw waith wedi'i gynllunio neu ei gomisiynu o amgylch meysydd fel gwasanaethau hamdden. Enghraifft o hyn fyddai cyfranogiad oedolion mewn chwaraeon.[21]

## Cymunedau o blaid pobl hŷn

Mae'r Comisiynydd wedi bod yn falch o weld cefnogaeth Llywodraeth Cymru i symud ymlaen tuag at gymunedau o blaid pobl hŷn. Mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn disgrifio cymunedau sydd o blaid pobl hŷn fel lleoedd lle mae pobl hŷn, cymunedau, polisïau, gwasanaethau, lleoliadau a strwythurau'n cydweithio mewn partneriaeth i'n

---

[20] Llywodraeth Cymru (2022), Strategaeth yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd. Ar gael yn: https://llyw.cymru/strategaeth-unedau-tystiolaeth-cydraddoldeb-hil-ac-anabledd-html

[21] Gweler argymhellion Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd (2022), Sicrhau chwarae teg: Adroddiad ar gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig (senedd.cymru)

cefnogi a'n galluogi ni i gyd i heneiddio'n dda. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn nodi wyth nodwedd hanfodol o gymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed, a elwir yn 'wyth maes':

- Mannau ac adeiladau awyr agored
- Trafnidiaeth
- Tai
- Cyfranogiad cymdeithasol
- Parch a chynhwysiant cymdeithasol
- Cyfranogiad dinesig a chyflogaeth
- Cyfathrebu a gwybodaeth
- Cefnogaeth gymunedol a gwasanaethau iechyd

Ym mis Ebrill 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fod £1.1 miliwn ar gael i awdurdodau lleol i gefnogi eu gwaith i ddod o blaid pobl hŷn a sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn y gwaith o ddylunio a chynllunio gwasanaethau lleol.[22] Mae'n rhaid cynnal buddsoddiad os ydym am ddatblygu "Cymru o blaid pobl hŷn: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio" Llywodraeth Cymru, a'i gweledigaeth o Gymru sy'n gyfeillgar i oed. Mae cymunedau sydd o blaid pobl hŷn wedi'u cynllunio ar gyfer amrywiaeth, cynhwysiant a chydlyniant, gan gynnwys ar draws pob oedran a gallu, ac mae buddsoddiad i'r perwyl hwn o fudd cadarnhaol i gymunedau'n gyffredinol.

### Crynodeb: Blaenoriaethau ar gyfer Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru

- Darparu buddsoddiad digonol mewn iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys cyllid ar gyfer atal a chymorth yn y gymuned
- Cynyddu'r buddsoddiad mewn gwasanaethau gwybodaeth a chyngor i helpu pobl hŷn sy'n profi tlodi drwy ganolbwyntio ar y nifer sy'n gymwys i fynediad at hawliau, yn enwedig Credyd Pensiwn
- Cefnogi gweithwyr hŷn i ddychwelyd i neu aros mewn cyflogaeth, gan gynnwys trwy hyrwyddo gweithio hyblyg, tra'n cydnabod pwysigrwydd pobl hŷn fel gofalwyr a gwirfoddolwyr

[22] Gweler datganiad i'r wasg Llywodraeth Cymru (Ebrill 2022), ar gael yn: Buddsoddiad o £1.1 miliwn i sicrhau bod Cymru yn wlad o blaid pobl hŷn | LLYW.CYMRU

- Buddsoddi mewn gwella data ac ymchwil am brofiadau pobl hŷn er mwyn cynhyrchu gwell polisi a galluogi craffu ar effaith polisi
- Parhau i fuddsoddi mewn cymunedau sydd o blaid pobl hŷn, a gwaith cysylltiedig.